

Uned 19

159

CYFARWYDDIADAU

Deialog tudalen 159

1. Gweithgaredd cyfieithu

(tudalen dwyieithog)

Dylai fod copi i bob pâr o dysgwyr. Plygwch y sgwrs ar y llinell. Y dysgwyr i edrych ar un iaith a cheisio dweud beth ydy o yn yr iaith arall. Mae hi wastad yn well dechrau efo Cymraeg i Saesneg (sy'n hawdd), yna Saesneg i Gymraeg

2. Gweithgaredd cyfieithu a rhoi mewn trefn

Argraffwch y tudalennau gefn wrth gefn. Torrwch y ddeialog mewn sribedi, gan ddefnyddio'r llinellau ar yr ochr Gymraeg.

Mae'n bosib gwneud y gweithgaredd fel dosbarth neu mewn parau, felly dewiswch sawl copi sydd angen eu hargraffu.

Rhowch y llinellau (ochr Gymraeg i fyny) ar wasgar ar fwrdd. Yna, mae'r dysgwyr yn eu rhoi mewn trefn. Dilyniant naturiol i hwn yw i'r dysgwyr geisio cyfieithu'r llinellau un wrth un, gan eu troi rownd unwaith maen nhw'n sicr o'r ystyr. Bydd y goreuon yn mynd syth i gyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg fel cam nesaf.

Mam:	Wyt ti wedi gorffen pacio?	<i>Have you finished packing?</i>
Sam:	Do... bron iawn...	<i>Yes...almost...</i>
Mam:	Da iawn. Dan ni'n mynd mewn hanner awr. Dan ni'n hedfan am un ar ddeg o'r gloch heno.	<i>Very good. We're going in half an hour. We're flying at 11.00 tonight.</i>
Sam:	Mam!	<i>Mum!</i>
Mam:	Ia?	<i>Yes?</i>
Sam:	Lle mae fy nghê i?	<i>Where is my case?</i>
Mam:	Ar y gwely wrth gwrs!	<i>On the bed, of course!</i>
Sam:	Lle mae fy fflip-fflops i?	<i>Where are my flip-flops?</i>
Mam:	Dan y gwely, mae'n siŵr.	<i>Under the bed, surely.</i>
Sam:	Lle mae fy mrws dannedd i?	<i>Where's my toothbrush?</i>
Mam:	Yn y stafell ymolchi, wrth gwrs.	<i>In the bathroom, of course.</i>
Sam:	Lle mae fy nghamera i?	<i>Where's my camera?</i>
Mam:	Dan y gadair yn y stafell fyw, dw i'n meddwl.	<i>Under the chair in the living room, I think.</i>
Sam:	Lle mae fy mhasbort i?	<i>Where's my passport?</i>
Mam:	Yn fy mag i, wrth gwrs.	<i>In my bag, of course.</i>
Sam:	O na! Dw i ddim yn medru ffeindio fy ffôn i. Lle mae o?	<i>Oh no! I can't find my phone. Where is it?</i>
Mam:	Dim problem, fyddi di ddim angen ffôn.	<i>No problem, you won't need a phone.</i>
Sam:	Pam lai?	<i>Why not?</i>
Mam:	Dwyt ti ddim yn medru chwarae gemau ar yr awyren, ac mi wnes i anghofio deud...	<i>You can't play games on the airplane, and I forgot to say...</i>
Sam:	Deud be?	<i>Say what?</i>
Mam:	Dydy'r we ddim yn gweithio ar yr ynys!	<i>The internet doesn't work on the island!</i>
Sam:	Be? Dw i ddim isio mynd, 'ta...	<i>What? I don't want to go, then...</i>

Wyt ti wedi gorffen pacio?

Do... bron iawn...

Da iawn.

Dan ni'n mynd mewn hanner awr.

Dan ni'n hedfan am un ar ddeg o'r gloch heno.

Mam!

Ia?

Lle mae fy nghê i?

Ar y gwely wrth gwrs!

Lle mae fy fflip-fflops i?

Dan y gwely, mae'n siŵr.

Lle mae fy mrws dannedd i?

Yn y stafell ymolchi, wrth gwrs.

Lle mae fy nghamera i?

Dan y gadair yn y stafell fyw,

dw i'n meddwl.

Have you finished packing?

Yes...almost...

Very good.

We're going in half an hour.

We're flying at 11.00 tonight.

Mum!

Yes?

Where is my case?

On the bed, of course!

Where are my flip-flops?

Under the bed, surely.

Where's my toothbrush?

In the bathroom, of course.

Where's my camera?

Under the chair in the living room,

I think.

Lle mae fy mhasbort i?

Yn fy mag i, wrth gwrs.

O na! Dw i ddim yn medru ffeindio fy ffôn i. Lle mae o?

Dim problem,

fyddi di ddim angen ffôn.

Pam lai?

Dwyt ti ddim yn medru chwarae gemau ar yr awyren,

ac mi wnes i anghofio deud...

Deud be?

Dydy'r we ddim yn gweithio

ar yr ynys!

Be?

Dw i ddim isio mynd, 'ta...

Where's my passport?

In my bag, of course.

Oh no! I can't find my phone. Where is it?

No problem,

you won't need a phone.

Why not?

You can't play games on the airplane,

and I forgot to say...

Say what?

The internet doesn't work

on the island!

What?

I don't want to go, then...